

2017 Rhif 747 (Cy. 179)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2017

Gwnaed 10 Gorffennaf 2017

Yn dod i rym 14 Gorffennaf 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2017.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 14 Gorffennaf 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig rhwng Cyfnewidfa Coryton yn Ninas a Sir Caerdydd a Chylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar naill ai gerbyttffordd tua'r gogledd neu gerbyttffordd tua'r de y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4.—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gogledd ond, yn unol ag erthygl 13, nad ydynt wedi eu gwahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r de, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbyttffordd tua'r de y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gogledd.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r de ond, yn unol ag erthygl 13, nad ydynt wedi eu gwahardd rhag symud ar

y gerbyttfordd tua'r gogledd, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r gogledd y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r de.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n fwy fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal o'r fath gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

Atal Dros Dro

11. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 5 a 6 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 9 a 10 yn weithredol.

Cymhwyso

12.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Gorffennaf 2017

Nina Ley

Pennaeth Yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwrthlif a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.95 cilometr i'r de o danlwybr Blaen-y-llyn, i'r gogledd o Gyfnewidfa Glan-bad, hyd at bwynt 650 o fetrau i'r gogledd o'r tanlwybr hwnnw.

ATODLEN 2

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfeydd Nantgarw a Glan-bad.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad, Cylchfan Glyn-taf a Chylchfan Broadway.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glyn-taf.

Y cilfannau cyfagos i gerbyttffyrdd tua'r gogledd a thua'r de y gefnffordd oddeutu 850 o fetrau i'r de o ffordd ymadael tua'r gogledd Glan-bad a 850 o fetrau i'r de o ffordd ymuno tua'r de Glan-bad.

ATODLEN 3

Gwahardd Cerbydau Llydan (dros 2.9 metr)

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

ATODLEN 4

Gwahardd Beicwyr

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfeydd Nantgarw a Glan-bad.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfeydd Broadway, Glyn-taf a Glan-bad.

ATODLEN 5

Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glyn-taf.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glyn-taf hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyfnewidfeydd Nantgarw a Glan-bad.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael tua'r gogledd ac ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glyn-taf.

ATODLEN 6

Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 wrth Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt 120 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Coryton hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 32 hyd at bwynt 350 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Abercynon.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Abercynon hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o drosbont reilffordd Walnut Tree, i'r gogledd o Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r A4054 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd tua'r gogledd.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfeydd Nantgarw a Glan-bad.

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r gogledd a ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Glyn-taf.

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r gogledd a ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Broadway.

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd a ffordd ymadael tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r gogledd a ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd, Travellers Rest, i'r de o Abercynon.